

Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin - Cyflawniadau 2017

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn bartneriaeth o gyrrff ac ecolegwyr unigol sy'n ymwneud yn bennaf â chadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd y sir a sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn fwy cadarn. Fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor ac mae wedi'i sefydlu ers bron i 20 mlynedd.

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn cynnal amrywiaeth anhygoel o fywyd gwyllt. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r cynefinoedd yn amrywio o arfordir i fynyddoedd ac o goedwigoedd i ddolydd, ac mae'r rhain i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a llesiant ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol.

Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw. Rydym yn gwybod fod rhai cynefinoedd a rhywogaethau yn dirywio, bod cysylltedd cynefinoedd ar drai, a bod cyflwr rhai cynefinoedd wedi gwaethgu. Golyga hyn fod eu gallu i ddarparu gwasanaethau a manteision i'r ecosystem mewn perygl o bosibl.

[Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) wedi cael ei lunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r adroddiad yn hoelio sylw ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac mae'n argymhell ymagwedd ragweithiol at gynyddu cadernid. Mae'r adroddiad yn cysylltu cadernid adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru ac yn ystyried sut mae gwasgfydd ar adnoddau naturiol Cymru yn arwain at beryglon a bygythiadau yn y tymor hir i lesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, fel y nodir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i faterion allweddol, yn ogystal â chyfluoedd o ran atebion integredig sydd â manteision lu.

Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau maent yn ymgymryd â nhw, yn arwain at ganlyniadau sy'n helpu i warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol, gan roi bod yn aml i fanteision lawer sy'n gwella llesiant y bobl sy'n byw yma. Mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion a chanlyniadau nifer o gynlluniau cenedlaethol a lleol, sydd â nodau ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

[Cynllun Gweithredu Adfer Natur](#) yw'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar fioamrywiaeth ar gyfer Cymru gan weithio i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau.


- [Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin](#)
- Amcanion Llesiant Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Hefyd mae [Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn rhoi proses ar waith i gynllunio ac i reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' pan fo hynny'n rhan o'u swyddogaethau cymwys a cheisio 'hyrwyddo cadernid ecosystemau'. Mae'r Cyngor wedi paratoi Blaen-gynllun i ddangos sut y bydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth hon wrth ddarparu ei wasanaethau.

Mae Partneriaethau Natur Lleol yn ddull cyflawni allweddol sy'n gallu helpu i ddarparu ffofws lleol a chyflawni'r holl amcanion hyn.

Gall pobl leol wneud gwahaniaeth hefyd ac mae gan yr holl bartneriaid rôl i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sy'n fanteisiol i fioamrywiaeth - a'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt!

Crynodeb yw hwn o rai o gyflawniadau'r partneriaid yn 2017, a hynny gan gydweithio'n aml, o ran gwarchod a gwella'r ystod helaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin



					Partneriaid/Gweithgaredd/ Pum ffordd o weithio					
Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynffinoedd	Gwyrtnwch	Myndi'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro	
<p>Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn gwarchod bioamrywiaeth ar ei hystad ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ymwelwyr ynghylch y pethau gallant eu gwneud i warchod y bywyd gwyllt a'r planhigion sydd yno. Mae'r Ardd wedi cynnal ymchwil ynghylch peillio, gan wella ein dealltwriaeth o arferion gwenyn mêl. Cysylltir hyn â gweithgareddau cyhoeddus megis arddangosfa o bwys ar wyddoniaeth-gelf 'Croesbeillio', gweithgareddau i'r teulu ac arddangosiadau cadw gwenyn. Mae gan yr Ardd grŵp gwirfoddolwyr cadwraeth sy'n gwneud pob math o dasgau yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys monitro a chofnodi bywyd gwyllt, casglu hadau, a darparu teithiau cerdded dwyieithog. Mae eu ffilmiau â camera gyda'r nos o foch daear, cadnoïd, dwrgwn, a cheirw wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau cymdeithasol ac wedi cadarnhau arferion symud a deinameg teuluol rhai o'n creaduriaid mwyaf swil. Mae digwyddiadau bioamrywiaeth yr Ardd megis Diwrnod Ffwng a Diwrnod Blodau Gwyllt yn sicrhau yr ymgynghorir â chynifer o'r cyhoedd â phosibl. Mae amrywiaeth flodeuol a ffyngaid dolydd gwair a glaswelltiroedd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las yn cael ei datblygu'n llwyddiannus, a hynny yn sgil dull ffermio organig sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth.</p>					✓	✓	✓		✓	
<p>Mae ein twyni tywod ar yr arfordir yn helpu i warchod ardaloedd helaeth o iseldir rhag llifogydd morol. Hefyd, mae'r twyni yng Ngwarchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre yn gadarnle pwysig ar raddfa genedlaethol i nifer o anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Yn wyneb y bygythiad yn sgil ymlediad prysgwydd, mae CSC wedi bod yn rheoli'r twyni (ar y cyd â Plantlife a Cyfoeth Naturiol Cymru a chyda cymorth grant gan WREN). Golyga hyn fod llecynnau helaeth o rafnwydden y môr ymledol wedi cael ei drin i'w atal rhag gorchfygu'r ffawna a'r fflora prin ar y twyni tywod. Dylai ffensys newydd sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir drwy bori. Mae amodau twym a sych y twyni'n gynefin i rywogaethau arbenigol o wenyn, clêr, chwilod a gwyfynod. Mae arolygon gan wirfoddolwyr wedi cyfrannu'n sylweddol at gadarnhau presenoldeb tair rhywogaeth allweddol sy'n unigryw i'r twyni gan gynnwys Chwilen y Draethlin, y mae darnau coed wedi'u gosod ar y traeth i roi rhagor o gynefinoedd diogel ar ei chyfer. Hefyd daeth y parcmon gwirfoddol o hyd i Chwilen Deigr y Twyni. Felly mae'r fioamrywiaeth fel pe bai'n elwa ar glirio'r prysgwydd, ond hefyd bydd hynny'n helpu pobl i fwynhau cymeriad unigryw'r twyni tywod gan y bydd modd cyrraedd y dirwedd wyllt a gwyntog hon yn fwy hwylus.</p>					✓	✓	✓	✓	✓	
<p>Mae Plantlife yn dal i reoli ei warchodfa laswelltir ger Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan. Mae'r safle hwn yn enghraifft o laswelltir cyforiog o flodau, a oedd yn gyffredin tu hwnt yng Nghymru ar un adeg. Mae mwy na 160 o rywogaethau o blanhigion sy'n blodeuo wedi eu cofnodi yn y warchodfa. Roedd nifer o wirfoddolwyr wedi helpu i gynnal arolwg planhigion blynyddol a chyfrif tegeirianau. Mae'r ddwy rywogaeth tegeirian llydanwyrdd yn dal i wneud yn dda a chofnodwyd cyfanswm o 1530 o'r tegeirian llydanwyrdd mwyaf a 792 o'r tegeirian llydanwyrdd lleiaf. Hefyd mae Plantlife yn rhoi cymorth gwerthfawr i Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin ac wedi trefnu dau gwrs pladuro cymorthdaledig (a gefnogir gan nawdd Llywodraeth Cymru) yn y warchodfa. Yn ogystal â helpu aelodau i reoli eu dolydd yn well, bydd yn eu helpu i 'ddod yn ffit hefyd' fel y dywed un o'r cyfranogwyr!</p>					✓	✓	✓		✓	
<p>Y Tymor Hir Atal Integreiddio Cydweithio Cynnwys</p>										



Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio	Ymgysylltu	Chynefinoedd	Rhywogaethau a	Gwyrtnwch	allweddol	Mynndi'r afael a phwysau	monitro	Tystiolaeth a
---	------------	--------------	----------------	-----------	-----------	--------------------------	---------	---------------

Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio

Dechreuodd **Prosiect Caeau Mynydd Mawr** yn 2013 ac mae'n llwyddo i wrthbwysu effeithiau'r datblygiadau ar rywogaeth warchoddedig Britheg y Gors a'r cynefin sy'n ei gynnal, yn ardal Cross Hands. Mae'r prosiect, sy'n cael ei gyllido drwy gyfraniadau gan y datblygwyr, yn hanfodol i weithredu Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor, gan sicrhau bod digon o gynefin ar gael i gynnal poblogaeth y gloÿnnod byw hyn yn yr ardal. Cafodd y prosiect ganmoliaeth uchel yng ngwobrau diweddar y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Mae'n darparu cytundebau rheoli i berchnogion yn yr ardal a chyllid ar gyfer gwaith sy'n gwella'r cynefin ar gyfer y gloÿn byw megis ailgyflwyno stoc i bori safleoedd sydd wedi'u hesgeuluso, torri'r glaswelltir sydd wedi gordyfu ac atal prysgwydd rhag ymledu. Mae Tamaid y Cythraul (sef yr unig fwyd sy'n cael ei fwyta gan larfau Brithegion y Gors) hefyd wedi cael ei blannu mewn sawl safle ac mae'r prosiect wedi helpu i drawsleoli cynefin addas i ddau safle arall. Mae 22 o safleoedd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd, ardal sy'n gyfanswm o 125 hectar, yn cynnwys 42 hectar y mae'r prosiect yn berchen arnynt. Mae'r prosiect yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r ardal sy'n cael ei rheoli.

✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
---	---	---	---	---	---	---	---	---

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
-------------	------	--------------	------------	---------

Mae dyfodiad ac ymlediad rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn broblem gynyddol, a gall cael gwared arnynt fod yn anodd ac yn ddrudd. Mae effeithiau rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ar fioamrywiaeth a cholli gwasanaethau ecosystem (bwyd, twristiaeth a dŵr) yn gallu bod yn sylweddol. Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn cydweithio â phrosiect ymchwil rhyngwladol, [Aquainvad-Ed](#), sy'n edrych ar roi technoleg DNA amgylcheddol newydd ar waith ar gyfer canfod rhai rhywogaethau dŵr croyw goresgynnol yn gynnar. Mae peth o'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar y llynnoedd ym Mharc Arfordirol y Mileniwm ym Mhorth Tywyn. Nod menter arall gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sef **Taclo'r Tywi**, yw gwella iechyd dalgylch afon Tywi. Eleni mae'r gwaith wedi cynnwys digwyddiadau ymgysylltu â'r sector amaethyddol, cydweithio â Dŵr Cymru i leihau'r defnydd o lyswenwyn yn y dalgylch, a phartneriaeth â Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin ar fapio a rheoli Jac y Neidiwr. Mae gwella ansawdd dŵr yn hanfodol i gynnal bioamrywiaeth yr afon.

✓	✓	✓	✓	✓
---	---	---	---	---

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
-------------	------	--------------	------------	---------

Ym mis Gorffennaf, helpodd **Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru** i lansio cronfa ddata newydd (mynediad cyhoeddus) ar gyfer rhywogaethau i Gymru yng Nghaerfyrddin - [Aderyn](#). Mae modiwl 'Beth sydd yn fy ardal' yn galluogi unrhyw un i gael rhestr o'r rywogaethau a welwyd o gwmpas ei gartref. Bydd hyn yn ddefnyddiol i unigolion, ysgolion, a grwpiau cymunedol gael rhagor o wybodaeth am y bywyd gwyllt a gofnodwyd gerllaw. Mae'r gronfa ddata wedi cael ei datblygu gyda chanolfannau cofnodi ledled Cymru ac mae'n dal dros 10 miliwn o gofnodion biolegol. Mae wedi cael hwb sylweddol eleni drwy ychwanegiad cyfres ddata planhigion Sir Gaerfyrddin sef dros hanner miliwn o gofnodion a gafwyd gan Richard a Kath Pryce, ein gwirfoddolwyr sy'n cofnodi planhigion y sir. Mae Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn dal i gefnogi twf y sylfaen dystiolaeth sylweddol hon; cynhaliwyd ganddi ddiwrnodau cofnodi ar safleoedd yn y sir a threfnwyd ganddi hyfforddiant adnabod bywyd gwyllt. Cynrychiolir y Ganolfan ar grŵp llywio Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin, gan roi cymorth i'w digwyddiadau a pharhau i hyrwyddo cofnodi biolegol lle bynnag y bo cyfleoedd yn codi.

✓	✓			✓
---	---	--	--	---

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
-------------	------	--------------	------------	---------



					Partneriaid/Gweithgaredd/ Pum ffordd o weithio				
--	--	--	--	--	---	--	--	--	--

Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynffwrdd	Gwyrnch	Mynediad a phwysau allweddol	Monitro	Tystiolaeth a
---	--	--	--	--	------------	---------------------------	---------	------------------------------	---------	---------------

Mae **Gwarchodfeydd Natur Lleol** yn noddfeydd i fywyd gwylt ac yn llefydd lle gall pawb brofi tawelwch a heddwch y byd naturiol. Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin**, gyda chymorth gan gyllid Llywodraeth Cymru, yn rheoli ei [Warchodfeydd Natur Lleol](#) fel rhan o'r ymrwymiad i warchod bioamrywiaeth a gwella mynediad i lecynnau naturiol ar gyfer pobl leol. Mae'r rhain yn safleoedd gwych i'w rheoli gyda chymorth gwirfoddolwyr ac yn safleoedd lle gall ymarfer corff ysgafn mewn llecyn naturiol wella llesiant corfforol a llesiant meddyliol. Maent yn safleoedd da i ymgysylltu â phlant ysgol er mwyn iddynt ryngweithio'n ystyrlon yn y byd naturiol a chryfhau eu cysylltiad â'r byd hwnnw. Yng Ngwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig, mae'r parcmon gwirfoddol wedi datblygu prosiect gydag Ysgol y Bynea i helpu i fonitro blychau adar ar y safle ar gyfer rhywogaethau allweddol ac i gofnodi llwyddiant bridio'r adar. Mae'r gwaith o reoli'r dolydd yn dal i fynd rhagddo ym Mharc Natur Ynysdawela, Parc Coetir y Mynydd Mawr, a Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig, a hefyd bwriedir gosod arwyddion newydd yn y gwarchodfeydd.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--	--

Er bod Britheg y Gors yn dal i ddirywio yng Ngogledd-orllewin Cymru, mae gwaith maes parhaus gan **Gwarchod Glöynnod Byw** y tu hwnt i'r fetaboblogaeth fawr ym Mynydd Mawr yn dangos tystiolaeth fod gan Sir Gaerfyrddin nifer o gynefinoedd posibl. Yn 2017, unwaith eto mae gwirfoddolwyr (â chymorth cyfyngedig gan staff) wedi gwneud cryn ymdrech o ran gwaith arolygu, a chafwyd ymweliadau dilynol â safleoedd a nodwyd yn astudiaeth 2016 ac mae nifer o safleoedd newydd ar gyfer y glöyn byw wedi cael eu canfod. Mae'r rhan fwyaf ar dyddynnod neu safleoedd y tu hwnt i ardaloedd o amaethu dwys. Mae grwpiau gwaith dan arweiniad gwirfoddolwyr wedi cael eu cynnal i helpu perchnogion i'w rheoli. Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn dal i roi cyngor a chefnogaeth i Brosiect Caeau Mynydd Mawr. Am yr unfed flwyddyn ar bymtheg, cynhaliwyd arolygon o wyau'r brithribin brown; ymwelir ag 20 o safleoedd yn rheolaidd bob blwyddyn, ynghyd ag oddeutu 20 o safleoedd newydd ychwanegol eleni. Unwaith eto, mae'r rhan fwyaf o'r poblogaethau cryfaf ar gaeau tyddynwyr neu gaeau cymunedol, ac mae Gwarchod Glöynnod Byw yn gwneud gwaith rheoli arbenigol sy'n ceisio diogelu poblogaethau, er gwaethaf dirywiad dramatig a pharhaus y glöyn byw yn y byd amaethyddol modern.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--	--

Mae **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** yn rheoli 10 o warchodfeydd yn Sir Gaerfyrddin, ac mae chwech ohonynt wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd i gadwraeth natur. Oherwydd cymhlethdod y safle, mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio cryn dipyn ar Warchodfa Natur Genedlaethol Carmel. Yn 2017 mae clirio helyg wedi helpu i gynyddu lefelau'r dŵr a chyfyngu ar ymlediad coetir. Mae plygu perthi wedi gwella'r potensial ar gyfer rhywogaethau'r perthi ac wedi cynyddu cysylltedd. Mae nifer o rywogaethau cystadleuol wedi cael eu rheoli gan roi hwb i fioamrywiaeth, ac mae'r dulliau wedi cynnwys clirio drysni o lennyrch coetiroedd ac o lawr y cwar, pladuro a rhacanu brwyn pabwyr o'r glaswelltir sy'n gyfuriog o rywogaethau, trin creigafal â llyswenwyn ar y glaswelltir o galchfaen, a rhoio rhedyn ar y grib grugiog. Cafodd llawer o'r gwaith hwn ei wneud gan wirfoddolwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd codi sbwriel ac wedi trwsio gatiâu a ffensys. Mae pori at ddibenion cadwraeth wedi digwydd ac mae gwair wedi cael ei dorri ar y dolydd gwair fel rhan hollbwysig o'u hadfer. Mae'r monitro wedi cynnwys arolygu llystyfiant ar laswelltiroedd a chynnal gwiriadau rheolaidd o bathewod.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--	--



Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio

Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynfinoedd	Gwyrtnwch	Mynd i'r afael a phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
---	------------	----------------------------	-----------	------------------------------------	-----------------------

Mae swyddogion **Coed Cymru** o **Adain Gadwraeth y Cyngor** wedi bod yn gweithio gyda Western Power i helpu perchnogion tir yr effeithiwyd arnynt gan Gysylltiad Fferm Wynt Fforest Brechfa i wneud gwelliannau ecolegol a thirweddol ar raddfa fechan. Mae grantiau o hyd at £1500 wedi galluogi perchnogion tir i adfer perthi, plannu coed perllan a gosod blychau i dylluanod gwyn. Bu i 20 o'r 66 o berchnogion tir yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan bolion newydd ar eu tir fynegi diddordeb yn y prosiect, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach wedi cytuno ar raglen waith ar gyfer y gaeaf hwn. Yn 2018 bydd y cynllun yn cael ei ehangu i gynnig grant tebyg i unrhyw un â thir o fewn 3km i'r llinell bŵer. Mae'r llinell yn rhedeg o Fforest Brechfa, ger Alltwalis, yn dilyn yr A485 i'r de i groesi Dyffryn Tywi o dan y ddaear ychydig i'r dwyrain o Gaerfyrddin, ac yna'n mynd ymlaen tua'r de gan ddod i ben ger Llandyfaelog.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys					
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--

Mae gan [Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin](#) dros 70 o aelodau bellach ac mae wedi datblygu i fod yn grŵp mawr sy'n cael ei redeg gan ei aelodau. Mae ystod o sefydliadau ac ecolegwyr lleol yn cefnogi'r grŵp, gan gynnal ymweliadau safle a rhoi sgysiau a hyfforddiant i'r aelodau. Mae hyn, ynghyd â'r cyfle i ddod ynghyd a rhannu profiadau, yn rhoi i nifer o berchnogion tir bach yn y sir yr hyder a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu dolydd ac i gyfrannu at warchod a gwella'r cynefin prin hwn. Yn ogystal â bod yn gynefin i amrywiaeth o blanhigion a bywyd gwylt, mae dolydd yn rhan o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol, oherwydd yn aml ceir enwau Cymraeg lleol unigryw arnynt. Hefyd mae glaswelltiroedd lled-naturiol/nad ydynt wedi eu gwella yn storio carbon ac mae ganddynt nifer fawr o anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac amrywiaeth, a gallant ddarparu gwasanaethau peillio a rheoli plâu i ardaloedd cyfagos sy'n rhai mwy dwys yn amaethyddol. Hefyd maent yn galluogi cyfraddau uwch o ran ymdreiddio a chadw dŵr (a ddylai helpu i atal llifogydd).

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys					
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** ac **Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir** wedi bod yn cydweithio ac yn gweithio gyda chontractwr lleol i greu nodweddion gwlyptir ar gyfer llygod pengrwn y dŵr a bywyd gwylt arall ar eiddo sy'n berchen i'r cyngor ger gwarchodfa Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd. Bydd creu pyllau a gwalau yma yn ymestyn ac yn cysylltu'r cynefin presennol sydd ar gael i'r boblogaeth bwysig o lygod pengrwn y dŵr sydd yma ac yn helpu i hybu ymlodiad llygod pengrwn y dŵr, cynyddu maint y poblogaethau a gwella'r gobaith sydd ganddynt o oroesi yn wyneb bygythiad y minc. Hefyd byddant yn hafan ar gyfer llygod pengrwn y dŵr yn ystod llifogydd. Mae'r prosiect hwn yn rhan o waith ehangach yn yr ardal i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella cysylltedd cynefinoedd ac edrych ar gyfleoedd o ran storio a lliniaru llifogydd. Fan arall, er mwyn helpu llygod pengrwn y dŵr gwnaeth **Cyfoeth Naturiol Cymru** welliannau i gynefinoedd ffosydd ar gwrs golff Ashburnham a gweithio mewn partneriaeth ag **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain** a pherchnogion tir lleol i fonitro a rheoli'r minc yn ardal Pen-bre er mwyn diogelu'r boblogaeth newydd o lygod pengrwn y dŵr yng Ngwarchodfa Natur Fferm y Ffrwd.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys					
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--



					Partneriaid/Gweithgaredd/ Pum ffordd o weithio					
Partneriaid/Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwyrtnwch	Mynd i'r afael a phwysau allweddol	monitro	Tystiolaeth a

Mae menter newydd wedi cael ei lansio gan yr yr **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** ledled y DU, sy'n canolbwyntio ar Dir a Natur ('Land and Nature'). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu nifer o dargedau ledled y DU ar gyfer Natur i helpu i sefydlu amgylchedd naturiol cryf a chysylltiedig. Yn Sir Gaerfyrddin mae hyn wedi gweld cynnydd yn y tir sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ninefwr, gan alluogi dôl 15 hectar i gael ei hadfer er mwyn cefnogi'r fuches gynyddol o Wartheg Gwynion a rheoli mwy na 121 hectar o'r parc yn uniongyrchol. Yn Nolaucothi mae cwmpo 10 hectar o larwydden o achos *Phytophthora ramorum* wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ystyried ailblannu'r dderwen frodorol dros y 2-3 blynedd nesaf, gan olygu bod cynlluniau i adfer coetir brodorol yn cael eu gweithredu'n gynt na'r disgwyl yma. Fel rhan o'r gwaith i Asesu Cyflwr y Tir eleni yn Nolaucothi o dan y Rhaglen Tir a Natur, cafodd poblogaeth o frithegion y gors ei chanfod ar gaeau tenant. Mae'r glaswelltir rhos hwn wastad wedi cael ei ystyried yn ardal o Statws Natur Uchel o achos ei phlanhigion, ond mae dod o hyd i boblogaeth Britheg y Gors newydd yno eleni yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd y safle hwn.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys					
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--

Aeth gwaith rheoli **Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir** yn ei flaen eleni, gan ddefnyddio ffyrdd arloesol o gynnal a gwella cynefinoedd gwlyptir a gwella amodau ar gyfer rhywogaethau gwlyptir pwysig. Mae clirio coed yng Ngwlyptiroedd Parc y Mileniwm wedi ailgysylltu ardaloedd presennol o gorslwyni ag ardal gyfagos fwy o gynefin gwlyptir. Drwy gydweithio â **PONT** mae pori wedi gallu digwydd ar ardaloedd a oedd gynt yn rhai nad oedd modd eu cyrraedd, drwy ddefnyddio gwartheg Dexter a defaid Shetland. Cafodd y defaid eu cludo ar gwch i ynys un wrth un, a chyda'u cymorth llwyddodd cywion cornicyllod i hedfan o'r ynys am y tro cyntaf mewn 8 mlynedd! Mae pont gychod arnofiol wedi galluogi defnyddio tractor ar yr ynys i drin bonion a brwyn er mwyn gwneud y cynefin hyd yn oed yn fwy agored. Ar ôl y prawf pori llwyddiannus hwn, mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir yn gobeithio cael praidd mwy o ddefaid y flwyddyn nesaf, a llawer mwy o gornicyllod! Mae glannau afonydd newydd serth wedi cael eu creu i las y dorlan a bydd carthu pyllau a ffosydd yn helpu llygod pengrwn y dŵr yng Ngwlyptiroedd Parc y Mileniwm. Yn ogystal â helpu bywyd gwylt bydd y gwaith hwn yn gwella'r mwynhad a gaiff ymwelwyr â'r safle hefyd.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys					
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--

Bellach mae **Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru** yn cyflogi'n rhan-amser Swyddog Gwiwerod Coch a Swyddog Rheoli Gwiwerod Llwyd. Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio gyda rheolwyr coedwigoedd i lunio Cynllun Rheoli Cynefinoedd 5 mlynedd ar gyfer planhigfeydd coniferaidd yng Nghoedwig Tywi a'r cyffiniau. Yn ddiweddar, mae gwiwerod coch wedi dioddef gan fod y prif rywogaethau y maent yn gwledda arnynt a'u cynefinoedd wedi dirywio, a hynny o achos gwaith clirio amhriodol. Bellach mae rheolwyr coedwigoedd wedi newid rhyw fymryn ar eu cynlluniau er mwyn ystyried buddiannau gwiwerod coch. Y bwriad yw diweddarau'r cynllun bob 5 mlynedd, gan helpu i sicrhau bod cadwraeth gwiwerod coch yn un o brif amcanion Coedwig Tywi wrth reoli'r goedwig yn y dyfodol. Ni allai'r Prosiect weithredu heb fewnbwn gwirfoddolwyr, sydd wedi cyfrannu dros 2700 o oriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae mwy na 75 o wirfoddolwyr â sgiliau amrywiol wedi bod yn ymwneud â'r prosiect mewn gwahanol ffyrdd megis mapio System Gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Cynefinoedd, hyrwyddo'r prosiect, rheoli'r wiwer lwyd, cydlynu'r Cynllun Benthycia Traipiau, monitro gwiwerod coch, ac adeiladu blychau bwydo.

Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys					
-------------	------	--------------	------------	---------	--	--	--	--	--

